OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 3177 (Cy. 316)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Rhagfyr 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *16 Rhagfyr 2013* |
| *Yn dod i rym* | *10 Ionawr 2014* |

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 3177 (W. 316)

## EDUCATION, WALES

The Education (Student Support) (Wales) Regulations 2013

| | |
|---|---|
| *Made* | *12 December 2013* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *16 December 2013* |
| *Coming into force* | *10 January 2014* |

**£28.75**

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 3177 (Cy. 316)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig mewn perthynas â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2014. Maent yn cydgrynhoi, gyda rhai newidiadau, Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012").

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau 2012 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau rheoliad 3 a esbonnir isod. Bydd Rheoliadau 2012 yn parhau i fod yn gymwys i'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2013 ond cyn 1 Medi 2014. Nodir graddau'r dirymu yn rheoliad 3. Amlygir isod y newidiadau o ran sylwedd a wneir yn y Rheoliadau hyn.

I fod â'r hawl i gael cymorth ariannol, rhaid i fyfyriwr fod yn "fyfyriwr cymwys". Yn fras, mae person yn fyfyriwr llawnamser cymwys os yw'r person hwnnw'n dod o fewn un o'r categorïau a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 1 a hefyd yn bodloni'r darpariaethau cymhwystra yn Rhan 2 o'r Rheoliadau (mae darpariaethau cymhwystra ar wahân yn gymwys i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau dysgu o bell, rhan-amser ac ôl-radd, a chyfeirir atynt yn Rhannau 11 i 13 o'r Rheoliadau).

Mae'r Rheoliadau yn gymwys i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, ble bynnag y bônt yn astudio ar gwrs dynodedig yn y Deyrnas Unedig. At ddibenion y Rheoliadau hyn, bernir bod person sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, o ganlyniad i symud o unrhyw un o'r ardaloedd hyn er mwyn ymgymryd â chwrs

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 3177 (W. 316)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Student Support) (Wales) Regulations 2013

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations provide for financial support for students who are ordinarily resident in Wales taking designated higher education courses in respect of academic years beginning on or after 1 September 2014. They consolidate, with some changes, the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2012 ("the 2012 Regulations").

These Regulations revoke the 2012 Regulations subject to the provisions of regulation 3 explained below. The 2012 Regulations will continue to apply to the provision of support to students in relation to the academic year which begins on or after 1 September 2013 but before 1 September 2014. Regulation 3 sets out the extent of the revocation. Changes of substance made in these Regulations are highlighted below.

To qualify for financial support a student must be an "eligible student". Broadly, a person is an eligible full-time student if that person falls within one of the categories listed in Part 2 of Schedule 1 and also satisfies the eligibility provisions in Part 2 of the Regulations (separate eligibility provisions apply to students undertaking distance learning, part-time and postgraduate courses and Parts 11 to 13 of the Regulations refer).

The Regulations apply to students ordinarily resident in Wales wherever they study on a designated course in the United Kingdom. For the purposes of these Regulations a person who is ordinarily resident in Wales, England, Scotland, Northern Ireland, the Channel Islands or the Isle of Man as a result of having moved from one of those areas for the purpose of undertaking a designated course is considered ordinarily resident in the place from which that person moved (Schedule 1, paragraph 1(3)). An eligible

dynodedig, yn preswylio fel arfer yn y lle y symudodd ohono (Atodlen 1, paragraff 1(3)). Rhaid i fyfyriwr cymwys fodloni hefyd unrhyw ofynion a bennir mewn mannau eraill yn y Rheoliadau; yn enwedig y gofynion penodol sy'n gymwys i bob math o gymorth ariannol.

Ar gyfer cyrsiau "dynodedig" o fewn ystyr rheoliadau 5, 78, 95, 124 ac Atodlen 2, yn unig, y mae cymorth ar gael o dan y Rheoliadau.

Mae'r gwahaniaeth (a gyflwynwyd gan Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2006) rhwng myfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn a myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd o ran cymorth ariannol i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau llawnamser wedi ei gadw yn y Rheoliadau hyn (rheoliad 2(1)).

Myfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn yw myfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau a ddechreuodd cyn 1 Medi 2006, myfyrwyr a gymerodd flwyddyn i ffwrdd ac sy'n dechrau ar gyrsiau cyn 1 Medi 2007 a chategorïau penodol eraill o fyfyrwyr. Mae'r grantiau a'r benthyciadau canlynol ar gael i fyfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn, yn ddarostyngedig i'r amodau a ragnodir yn y rheoliadau perthnasol—

- Grant ar gyfer ffioedd (rheoliadau 16 i 18);
- Benthyciad cyfrannu at ffioedd (rheoliad 22);
- Grant at gostau byw myfyrwyr anabl (rheoliad 29);
- Grantiau ar gyfer dibynyddion (rheoliadau 30 i 35);
- Grant at deithio (rheoliadau 37 i 39);
- Grant addysg uwch (rheoliad 40); a
- Benthyciadau at gostau byw (Rhan 6).

Mae myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd yn fyfyriwr cymwys a ddechreuodd ei gwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2006 ac yn parhau ar y cwrs hwnnw ar ôl 31 Awst 2014, neu sy'n dechrau ei gwrs presennol ar neu ar ôl 1 Medi 2014, ac nad yw'n fyfyriwr cymwys o dan yr hen drefn. Mae'r grantiau a'r benthyciadau canlynol ar gael i fyfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd, yn ddarostyngedig i'r amodau a ragnodir yn y rheoliadau perthnasol—

- Grant at ffioedd (rheoliad 19);
- Grant newydd at ffioedd (rheoliad 20);
- Benthyciad at ffioedd (rheoliadau 23 a 24);
- Benthyciad newydd at ffioedd (rheoliad 25);

student must also satisfy any requirements elsewhere in the Regulations; in particular the specific requirements applicable to each type of financial support.

Support is only available under the Regulations in respect of "designated" courses within the meaning of regulations 5, 78, 95, 124 and Schedule 2.

The distinction between old system eligible students and new system eligible students (introduced by the Assembly Learning Grants and Loans (Higher Education) (Wales) Regulations 2006) in relation to financial support to students for full-time courses is retained (regulation 2(1)).

Old system eligible students are eligible students attending courses that started before 1 September 2006, gap year students starting courses before 1 September 2007 and certain other categories of student. The following grants and loans are available to old system eligible students subject to the conditions prescribed in the relevant regulations—

- Grant for fees (regulations 16 to 18);
- Fee contribution loan (regulation 22);
- Grant for disabled students' living costs (regulation 29);
- Grants for dependants (regulations 30 to 35);
- Grant for travel (regulations 37 to 39);
- Higher education grant (regulation 40); and
- Loans for living costs (Part 6).

A new system eligible student is an eligible student who started their course on or after 1 September 2006 and is continuing on that course after 31 August 2014, or starts their present course on or after 1 September 2014, and is not an old system eligible student. The following grants and loans are available to new system eligible students subject to the conditions prescribed in the relevant regulations—

- Fee grant (regulation 19);
- New fee grant (regulation 20);
- Fee loan (regulations 23 and 24);
- New fee loan (regulation 25);

- Benthyciad newydd at ffioedd sefydliad preifat (rheoliad 26);
- Benthyciad at ffioedd mynediad graddedig carlam (rheoliad 27);
- Grant at gostau byw myfyrwyr anabl (rheoliad 29);
- Grantiau ar gyfer dibynyddion (rheoliadau 30 i 35);
- Grant at deithio (rheoliadau 37 i 39);
- Grant cynhaliaeth neu grant cymorth arbennig (rheoliadau 41 i 48);
- Benthyciadau at gostau byw (Rhan 6); a
- Benthyciadau at ffioedd coleg (Atodlen 4).

Roedd Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2009 wedi cyflwyno dau is-gategori newydd o fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd, sef "myfyriwr carfan 2010" a "myfyriwr blwyddyn i ffwrdd 2010". Roedd Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2011 wedi cyflwyno dau is-gategori ychwanegol newydd o fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd, sef "myfyriwr carfan 2011" a "myfyriwr blwyddyn i ffwrdd 2011". Yna cyflwynodd Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011 un categori ychwanegol newydd o fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd, sef myfyriwr carfan 2012. Myfyriwr carfan 2012 yw myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd sy'n dechrau ar y cwrs presennol ar neu ar ôl 1 Medi 2012 a bydd y darpariaethau perthnasol yn parhau i fod yn gymwys i fyfyrwyr sy'n dechrau ar y cwrs presennol ar neu ar ôl 1 Medi 2014. Mae'r diffiniad o fyfyriwr carfan 2012 yn rheoliad 2(1) hefyd yn darparu nad yw categorïau penodol o fyfyrwyr yn cael eu dosbarthu fel myfyrwyr carfan 2012. Mae'r term "myfyriwr carfan newydd" ("*new cohort student*") yn rheoliad 2(1) hefyd yn disgrifio'n gyfunol fyfyrwyr carfan 2010, myfyrwyr carfan 2011 a myfyrwyr carfan 2012.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â chymhwystra.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer ceisiadau am gymorth (rheoliad 9), terfynau amser ar gyfer ceisiadau (rheoliad 10) ac y mae rheoliad 11 ac Atodlen 3 yn pennu'r wybodaeth y mae'n rhaid i geiswyr ei darparu.

- New private institution fee loan (regulation 26);
- Accelerated graduate entry fee loan (regulation 27);
- Grant for disabled students' living costs (regulation 29);
- Grants for dependants (regulations 30 to 35);
- Grant for travel (regulations 37 to 39);
- Maintenance grant or special support grant (regulations 41 to 48);
- Loans for living costs (Part 6); and
- College fee loans (Schedule 4).

The Assembly Learning Grants and Loans (Higher Education) (Wales) Regulations 2009 introduced two new sub-categories of new system eligible student, namely a "2010 cohort student" and a "2010 gap year student". The Assembly Learning Grants and Loans (Higher Education) (Wales) Regulations 2011 introduced a further two new sub-categories of new system eligible student, namely a "2011 cohort student" and a "2011 gap year student". The Assembly Learning Grants and Loans (Higher Education) (Wales) (No.2) Regulations 2011 then introduced one further new category of new system eligible student, namely a 2012 cohort student. A 2012 cohort student is a new system eligible student who begins the present course on or after 1 September 2012 and the relevant provisions will continue to apply to students who begin the present course on or after 1 September 2014. The definition of 2012 cohort student in regulation 2(1) also provides that certain categories of students are not classed as 2012 cohort students. The term "new cohort student" ("*myfyriwr carfan newydd*") in regulation 2(1) also collectively describes 2010 cohort students, 2011 cohort students and 2012 cohort students.

Part 2 of these Regulations concerns eligibility.

Part 3 of these Regulations makes provision for applications for support (regulation 9), time limits for applications (regulation 10) and regulation 11 and Schedule 3 specify the information that must be provided by applicants.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymorth at ffioedd, ar ffurf grantiau ar gyfer ffioedd a benthyciadau at ffioedd.

Mae rheoliad 20 yn darparu ar gyfer talu grant newydd at ffioedd i fyfyrwyr carfan 2012. Mae rheoliad 23 yn darparu ar gyfer talu benthyciadau at ffioedd i fyfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd nad oes hawl ganddynt i gael grant at ffioedd. Mae myfyriwr carfan newydd (ar wahân i fyfyriwr carfan 2012) yn dod o fewn y categori hwnnw. Mae rheoliad 24 yn darparu ar gyfer talu benthyciadau at ffioedd i fyfyrwyr sydd â hawl i gael grant at ffioedd o dan reoliad 19. Ni fydd talu benthyciadau at ffioedd o dan reoliadau 23 a 24 yn gymwys ond mewn perthynas â chyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Medi 2012.

Mae'r benthyciadau at ffioedd sydd ar gael mewn cysylltiad â chyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012 wedi eu nodi yn rheoliadau 25 i 27. Mae rheoliad 25 yn darparu ar gyfer talu benthyciad newydd at ffioedd i fyfyrwyr carfan 2012 sy'n ymgymryd â chyrsiau mewn sefydliadau a gaiff eu hariannu'n gyhoeddus. Mae rheoliad 26 yn darparu ar gyfer talu benthyciad newydd at ffioedd i sefydliad preifat i fyfyrwyr carfan 2012 sy'n ymgymryd â chyrsiau mewn sefydliadau preifat. Yn olaf, mae rheoliad 27 yn darparu ar gyfer talu benthyciad at ffioedd mynediad graddedig carlam i fyfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau mynediad graddedig carlam ar neu ar ôl 1 Medi 2012.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu ar gyfer lefelau newydd o gymorth at ffioedd i fyfyrwyr carfan 2012 penodol sy'n ymgymryd â blwyddyn o astudio dramor neu leoliad gwaith fel rhan o gwrs dynodedig. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr sy'n ymgymryd â lleoliad gwaith neu flwyddyn o astudio dramor fel rhan o gwrs rhyngosod neu flwyddyn Erasmus. Mae'r cymorth perthnasol wedi ei nodi yn rheoliadau 20, 25 a 26 ac mae newid cysylltiedig wedi ei wneud i'r diffiniad o "Blwyddyn Erasmus" yn rheoliad 2(1).

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer grantiau at gostau byw, sy'n cynnwys grantiau at deithio, i gategorïau penodol o fyfyrwyr cymwys.

Mae'n darparu y bydd swm y grant cynhaliaeth neu'r grant cymorth arbennig sy'n daladwy i fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd yn amrywio yn ôl pa un a yw'r myfyriwr yn fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd nad yw'n fyfyriwr carfan newydd (rheoliadau 42 a 46); yn fyfyriwr carfan 2010 ac yn fyfyriwr carfan 2012 (rheoliadau 43 a 47); neu'n fyfyriwr carfan 2011 (rheoliadau 44 a 48).

Mae rheoliad 32 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y grant gofal plant sy'n daladwy mewn perthynas â chostau gofal plant yr ysgwyddir mewn perthynas â

Part 4 of these Regulations provides for fee support, in the form of grants for fees and fee loans.

Regulation 20 provides for the payment of a new fee grant to 2012 cohort students. Regulation 23 provides for the payment of fee loans to new system eligible students who do not qualify for a fee grant. A new cohort student (other than a 2012 cohort student) falls within that category. Regulation 24 provides for the payment of fee loans to students who qualify for a fee grant under regulation 19. The payment of fee loans under regulations 23 and 24 will only apply in relation to courses beginning before 1 September 2012.

The fee loans available in respect of courses beginning on or after 1 September 2012 are set out in regulations 25 to 27. Regulation 25 provides for the payment of a new fee loan to 2012 cohort students who undertake courses at publicly funded institutions. Regulation 26 provides for the payment of a new private institution fee loan to 2012 cohort students who undertake courses at private institutions. Finally, regulation 27 provides for the payment of an accelerated graduate entry fee loan to students who begin accelerated graduate entry courses on or after 1 September 2012.

These Regulations also provide for new levels of fee support for certain 2012 cohort students who are undertaking a study year abroad or a work placement as part of a designated course. This includes students who are undertaking a work placement or study year abroad as part of a sandwich course or an Erasmus year. The relevant support is set out in regulations 20, 25 and 26 and a related change is made to the definition of "Erasmus Year" in regulation 2(1).

Part 5 of these Regulations makes provision for grants for living costs which includes grants for travel for certain categories of eligible student.

It provides that the amount of maintenance grant or special support grant payable to a new system eligible student will differ according to whether the student is a new system eligible student who is not a new cohort student (regulations 42 and 46); a 2010 cohort student and a 2012 cohort student (regulations 43 and 47); or a 2011 cohort student (regulations 44 and 48).

Regulation 32 makes provision for the childcare grant which is payable in respect of childcare charges incurred in relation to children who are dependent on

phlant sy'n ddibynnol ar fyfyriwr cymwys, gan gynnwys plant a enir ar ôl i'r flwyddyn academaidd ddechrau. Mae'r rheoliad hwn bellach hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfyngu ar swm y grant gofal plant sy'n daladwy pan na fo myfyriwr cymwys yn cyflwyno manylion y darparwr gofal plant.

Mae rheoliadau 30 i 35 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y grantiau i ddibynyddion. Mae rheoliad 34 yn darparu y cymerir i ystyriaeth incwm gweddilliol unrhyw bartner neu ddibynnydd mewn oed yn y flwyddyn ariannol gynharach ac incwm net unrhyw blentyn dibynnol yn y flwyddyn ariannol gynharach wrth gyfrifo swm unrhyw grantiau i ddibynyddion. Fodd bynnag, pan fo incwm dibynnydd am y flwyddyn ariannol gyfredol yn debygol o fod 15 y cant yn llai na'i incwm yn y flwyddyn ariannol gynharach, caiff Gweinidogion Cymru asesu incwm y dibynnydd ar sail y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae rheoliad 35 yn darparu diffiniadau o "blwyddyn ariannol gyfredol", "blwyddyn ariannol gynharach", "dibynnydd", "incwm gweddilliol" ac "incwm net" at y dibenion hyn. Mae darpariaeth gyfatebol wedi ei gwneud mewn perthynas â grantiau rhan-amser i ddibynyddion yn Rhan 12 o'r Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer benthyciadau at gostau byw. Mae benthyciadau o'r fath yn daladwy i fyfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn ac i fyfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd.

Gall swm y benthyciad sy'n daladwy i fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd amrywio yn ôl pa un a yw'r myfyriwr yn fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd nad yw'n fyfyriwr carfan newydd (rheoliad 52); yn fyfyriwr carfan 2010, yn fyfyriwr carfan 2012 neu'n fyfyriwr mynediad graddedig carlam 2012 sy'n ymgymryd â'i flwyddyn gyntaf o astudio (rheoliad 54); neu'n fyfyriwr carfan 2011 (rheoliad 55).

Mae Rhan 7 yn nodi darpariaethau cyffredinol ynglŷn â benthyciadau a wneir o dan y Rheoliadau.

Mae Rhan 8 ac Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer "benthyciadau at ffioedd coleg". Benthyciadau yw'r rhain mewn perthynas â'r ffioedd coleg sy'n daladwy gan fyfyriwr cymhwysol i goleg neu neuadd breifat barhaol ym Mhrifysgol Rhydychen neu i un o golegau Prifysgol Caergrawnt mewn perthynas â phresenoldeb myfyriwr cymhwysol ar gwrs cymhwysol.

Mae Rhan 9 ac Atodlen 5 yn parhau i ddarparu ar gyfer prawf modd i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau llawnamser dynodedig. Cyfrifir y cyfraniad a fynnir gan y myfyriwr ar sail incwm yr aelwyd. Mae'r cyfraniad i'w gymhwyso at grantiau a benthyciadau penodedig hyd nes y'i dihysbyddir yn erbyn swm y grantiau a'r benthyciadau penodol y mae hawl gan y myfyriwr i'w cael.

an eligible student, including children who are born after the beginning of the academic year. This regulation also now enables the Welsh Ministers to limit the amount of childcare grant payable where an eligible student does not submit details of the childcare provider.

Regulations 30 to 35 make provision for the grants for dependants. Regulation 34 provides that the residual income of any partner or adult dependant in the prior financial year and the net income of any child dependant in the prior financial year will be taken into account when calculating the amount of any grants for dependants. However, where a dependant's income for the current financial year is likely to be 15 per cent less than their income in the prior financial year, the Welsh Ministers may assess the dependant's income on the basis of the current financial year. Regulation 35 provides definitions of "dependant", "residual income", "net income", "prior financial year" and "current financial year" for these purposes. Equivalent provision is made in respect of part-time grants for dependants in Part 12 of these Regulations.

Part 6 makes provision for loans for living costs. Such loans are payable to both old system eligible students and new system eligible students.

The amount of loan payable to a new system eligible student may differ according to whether the student is a new system eligible student who is not a new cohort student (regulation 52); a 2010 cohort student, a 2012 cohort student or a 2012 accelerated graduate entry student undertaking their first year of study (regulation 54); or a 2011 cohort student (regulation 55).

Part 7 sets out general provisions relating to loans made under the Regulations.

Part 8 and Schedule 4 make provision for "college fee loans". These are loans in respect of the college fees payable by a qualifying student to a college or permanent private hall of the University of Oxford or to a college of the University of Cambridge in connection with attendance of a qualifying student on a qualifying course.

Part 9 and Schedule 5 continue to make provision for the means-testing of students taking designated full-time courses. A contribution from the student is calculated on the basis of household income. The contribution is to be applied to specified grants and loans until it is extinguished against the amount of the particular grants and loans for which the student qualifies.

Mae Rhan 10 yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu grantiau a benthyciadau.

Mae Rhan 11 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cymorth i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau dysgu o bell dynodedig.

Mae Rhan 12 ac Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chymorth ar gyfer cyrsiau rhan-amser. Mae rheoliad 98 yn gwneud darpariaeth ar gyfer benthyciad newydd at ffioedd rhan-amser sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser cymwys sy'n dechrau ar gyrsiau rhan-amser dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2014. Bydd lefel y benthyciad newydd at ffioedd rhan-amser yn amrywio yn ôl pa un a ddarperir y cwrs rhan-amser dynodedig gan sefydliad yng Nghymru neu sefydliad yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Bydd lefel y benthyciad newydd at ffioedd rhan-amser hefyd yn amrywio yn ôl pa un a ddarperir y cwrs rhan-amser dynodedig gan sefydliad a ariennir yn gyhoeddus neu sefydliad preifat yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Bydd y benthyciad newydd at ffioedd rhan-amser ar gael i fyfyrwyr rhan-amser cymwys newydd sy'n astudio ar gyrsiau rhan-amser dynodedig sydd â dwysedd astudio o dros 25 y cant.

Mae rheoliad 99 yn gwneud darpariaeth ar gyfer grant newydd at gyrsiau rhan-amser, sy'n dibynnu ar brawf modd, ac sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser cymwys sy'n dechrau ar gyrsiau rhan-amser dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2014. Bydd y grant newydd at gyrsiau rhan-amser ar gael i fyfyrwyr rhan-amser cymwys sy'n astudio ar gyrsiau rhan-amser dynodedig sydd â dwysedd astudio o dros 50 y cant.

Mae Rhan 13 yn gwneud darpariaeth ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig sydd ag anableddau.

Mae rheoliadau 29, 32, 37, 41, 45, 83, 100 a 129 yn gwneud darpariaeth (yn rhannol) ar gyfer myfyrwyr a ddaw'n gymwys i gael mathau penodol o gymorth ran o'r ffordd drwy flwyddyn academaidd. Maent yn darparu mai dim ond mewn perthynas â'r chwarteri academaidd yn dilyn y digwyddiad sy'n sbarduno eu cymhwystra y bydd gan y myfyrwyr hynny hawl i gael y cymorth perthnasol bellach.

Mae Rhan 14 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2012 mewn perthynas â "cyrsiau blwyddyn gyntaf gywasgedig". Cyrsiau yw'r rhain yr ymgymerir â'u blwyddyn gyntaf o astudio ar sail gywasgedig. Mae'r diffiniad o "blwyddyn academaidd" hefyd wedi ei ddiwygio at y diben hwn.

Part 10 makes provision for payment of grants and loans.

Part 11 makes provision for support to students who are undertaking designated distance learning courses.

Part 12 and Schedule 6 make provision for support for part-time courses. Regulation 98 makes provision for a new part-time fee loan which is available to eligible part-time students who start designated part-time courses on or after 1 September 2014. The level of new part-time fee loan will vary according to whether the designated part-time course is provided by an institution in Wales or an institution in England, Scotland or Northern Ireland. The level of new part-time fee loan will also vary according to whether the designated part-time course is provided by a publicly funded institution or private institution in England, Scotland or Northern Ireland. The new part-time fee loan will be available to new eligible part-time students who study designated part-time courses at an intensity of study above 25 per cent.

Regulation 99 makes provision for a new part-time course grant, which is means tested, and available to eligible part-time students who start designated part-time courses on or after 1 September 2014. The new part-time course grant will be available to eligible part-time students who study designated part-time courses at an intensity of study above 50 per cent.

Part 13 makes provision for postgraduate students with disabilities.

Regulations 29, 32, 37, 41, 45, 83, 100 and 129 make provision (in part) for students who become eligible for certain types of support part way through an academic year. They provide that such students will now only qualify for the relevant support in respect of the academic quarters following the event which triggers their eligibility.

Part 14 makes amendments to the 2012 Regulations in relation to "compressed first year courses". These are courses in which the first year of study is undertaken on a compressed basis. The definition of "academic year" is also amended for this purpose.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 3177 (Cy. 316)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013

*Gwnaed* *12 Rhagfyr 2013*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *16 Rhagfyr 2013*

*Yn dod i rym* *10 Ionawr 2014*

TREFN Y RHEOLIADAU


RHAN 1

CYFFREDINOL

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Dirymu, arbedion a darpariaethau trosiannol

RHAN 2

CYMHWYSTRA

4. Myfyrwyr cymwys
5. Cyrsiau dynodedig
6. Cyfnod cymhwystra
7. Astudio blaenorol
8. Trosglwyddo statws

RHAN 3

GWNEUD CAIS AM GYMORTH A RHOI GWYBODAETH

9. Ceisiadau am gymorth
10. Terfynau amser
11. Gwybodaeth
12. Gofyniad i ymrwymo i gontract ar gyfer benthyciad


WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 3177 (W. 316)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Student Support) (Wales) Regulations 2013

*Made* *12 December 2013*

*Laid before the National Assembly for Wales* *16 December 2013*

*Coming into force* *10 January 2014*

ARRANGEMENT OF REGULATIONS


PART 1

GENERAL

1. Title, commencement and application
2. Interpretation
3. Revocation, savings and transitional provisions

PART 2

ELIGIBILITY

4. Eligible students
5. Designated courses
6. Period of eligibility
7. Previous study
8. Transfer of status

PART 3

APPLYING FOR SUPPORT AND PROVISION OF INFORMATION

9. Applications for support
10. Time limits
11. Information
12. Requirement to enter into a contract for a loan

## RHAN 4

## GRANTIAU A BENTHYCIADAU AR GYFER FFIOEDD

### Pennod 1 DARPARIAETH GYFFREDINOL


13. Cymorth at ffioedd yn gyffredinol
14. Myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd
15. Digwyddiadau


### Pennod 2 GRANTIAU AR GYFER FFIOEDD


16. Grantiau ar gyfer ffioedd: amodau'r hawl i'w cael ar gyfer myfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn
17. Swm y grantiau ar gyfer ffioedd mewn sefydliad a ariennir yn gyhoeddus ac mewn sefydliad preifat ar ran sefydliad a ariennir yn gyhoeddus: myfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn
18. Swm y grant ar gyfer ffioedd mewn sefydliad preifat (nid ar ran sefydliad a ariennir yn gyhoeddus): myfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn
19. Grant at ffioedd
20. Grant newydd at ffioedd


### Pennod 3 BENTHYCIADAU CYFRANNU AT FFIOEDD A BENTHYCIADAU AT FFIOEDD


21. Amodau cyffredinol yr hawl i gael benthyciadau cyfrannu at ffioedd a benthyciadau at ffioedd
22. Benthyciadau cyfrannu at ffioedd (i fyfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn)
23. Benthyciadau at ffioedd mewn perthynas â chyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Medi 2012: myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd nad oes ganddynt hawl i gael grant at ffioedd
24. Benthyciadau at ffioedd mewn perthynas â chyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Medi 2012: myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd sydd â hawl i gael grant at ffioedd
25. Benthyciad newydd at ffioedd mewn perthynas â chyrsiau sy'n dechrau ar 1 Medi 2012 neu wedi hynny
26. Benthyciad newydd at ffioedd sefydliad preifat
27. Benthyciad at ffioedd mynediad graddedig carlam


## PART 4

## GRANTS AND LOANS FOR FEES

### Chapter 1 GENERAL PROVISION


13. Fee support generally
14. Students becoming eligible during the course of an academic year
15. Events


### Chapter 2 GRANTS FOR FEES


16. Grants for fees: qualifying conditions for old system eligible students
17. Amount of grants for fees at a publicly funded institution and at a private institution on behalf of a publicly funded institution: old system eligible students
18. Amount of the grant for fees at a private institution (not on behalf of a publicly funded institution): old system eligible students
19. Fee grant
20. New fee grant


### Chapter 3 FEE CONTRIBUTION LOANS AND FEE LOANS


21. General qualifying conditions for fee contribution loans and fee loans
22. Fee contribution loans (for old system eligible students)
23. Fee loans in respect of courses beginning before 1 September 2012: new system eligible students not qualifying for a fee grant
24. Fee loans in respect of courses beginning before 1 September 2012: new system eligible students qualifying for a fee grant
25. New fee loan in respect of courses beginning on or after 1 September 2012
26. New private institution fee loan
27. Accelerated graduate entry fee loan

| RHAN 5 | PART 5 |
|---|---|
| GRANTIAU AT GOSTAU BYW | GRANTS FOR LIVING COSTS |
| 28. Amodau cyffredinol yr hawl i gael grantiau at gostau byw | 28. General qualifying conditions for grants for living costs |
| 29. Grantiau at gostau byw myfyrwyr anabl | 29. Grants for disabled students' living costs |
| 30. Grantiau ar gyfer dibynyddion – cyffredinol | 30. Grants for dependants - general |
| 31. Grantiau ar gyfer dibynyddion – grant ar gyfer dibynyddion mewn oed | 31. Grants for dependants - adult dependants' grant |
| 32. Grantiau ar gyfer dibynyddion – grant gofal plant | 32. Grants for dependants - childcare grant |
| 33. Grantiau ar gyfer dibynyddion – lwfans dysgu ar gyfer rhieni | 33. Grants for dependants - parents' learning allowance |
| 34. Grantiau ar gyfer dibynyddion – eu cyfrifo | 34. Grants for dependants - calculations |
| 35. Grantiau ar gyfer dibynyddion – dehongli | 35. Grants for dependants – interpretation |
| 36. Dehongli rheoliadau 37 i 39 | 36. Interpretation of regulations 37 to 39 |
| 37. Amodau'r hawl i gael y grant at deithio | 37. Qualifying conditions for the grant for travel |
| 38 Swm y grant at deithio | 38. Amount of the grant for travel |
| 39. Didyniadau o'r grant at deithio | 39. Deductions from the grant for travel |
| 40. Grantiau addysg uwch | 40. Higher education grants |
| 41. Grant cynhaliaeth | 41. Maintenance grant |
| 42. Grant cynhaliaeth – myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd nad ydynt yn fyfyrwyr carfan newydd | 42. Maintenance grant – new system eligible students who are not new cohort students |
| 43. Grant cynhaliaeth – myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyrwyr carfan 2010 neu'n fyfyrwyr carfan 2012 | 43. Maintenance grant – new system eligible students who are 2010 cohort students or 2012 cohort students |
| 44. Grant cynhaliaeth – myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyrwyr carfan 2011 | 44. Maintenance grant – new system eligible students who are 2011 cohort students |
| 45. Grant cymorth arbennig | 45. Special support grant |
| 46. Grant cymorth arbennig – myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd nad ydynt yn fyfyrwyr carfan newydd | 46. Special support grant – new system eligible students who are not new cohort students |
| 47. Grant cymorth arbennig – myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyrwyr carfan 2010 neu'n fyfyrwyr carfan 2012 | 47. Special support grant – new system eligible students who are 2010 cohort students or 2012 cohort students |
| 48. Grant cymorth arbennig – myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyrwyr carfan 2011 | 48. Special support grant – new system eligible students who are 2011 cohort students |
| RHAN 6 | PART 6 |
| BENTHYCIADAU AT GOSTAU BYW | LOANS FOR LIVING COSTS |
| 49. Amodau'r hawl i gael benthyciadau at gostau byw | 49. Qualifying conditions for loans for living costs |
| 50. Cyffredinol | 50. General |
| 51. Uchafswm benthyciadau i fyfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn sydd â hawlogaeth lawn | 51. Maximum amount of loans for old system eligible students with full entitlement |

52-53. Uchafswm benthyciadau i fyfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd sydd â hawlogaeth lawn ac nad ydynt yn fyfyrwyr carfan newydd
54. Uchafswm benthyciadau i fyfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd sydd â hawlogaeth lawn ac yn fyfyrwyr carfan 2010, yn fyfyrwyr carfan 2012 neu'n fyfyrwyr mynediad graddedig carlam 2012 sy'n ymgymryd â'u blwyddyn gyntaf o astudio
55. Uchafswm benthyciadau i fyfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd sydd â hawlogaeth lawn ac yn fyfyrwyr carfan 2011
56. Myfyrwyr sydd â hawlogaeth ostyngol
57. Myfyrwyr sy'n preswylio gyda'u rhieni
58. Benthyciadau at gostau byw sy'n daladwy ar gyfer tri chwarter o'r flwyddyn academaidd
59. Myfyrwyr sy'n dod o fewn mwy nag un categori
60. Myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd
61. Codiadau yn yr uchafswm
62. Didynnu o fenthyciadau at gostau byw
63. Dehongli Rhan 6

RHAN 7

DARPARIAETHAU CYFFREDINOL YNGLŶN Â BENTHYCIADAU

64. Symiau ychwanegol o fenthyciadau

RHAN 8

BENTHYCIADAU AT FFIOEDD COLEG

65. Benthyciadau at ffioedd coleg

RHAN 9

ASESIAD ARIANNOL

66. Cyfrifo'r cyfraniad
67. Cymhwyso'r cyfraniad

RHAN 10

TALIADAU

68. Talu grantiau neu fenthyciadau ar gyfer ffioedd i fyfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn

52-53. Maximum amount of loans for new system eligible students with full entitlement who are not new cohort students
54. Maximum amount of loans for new system eligible students with full entitlement who are 2010 cohort students, 2012 cohort students or 2012 accelerated graduate entry students undertaking their first year of study
55. Maximum amount of loans for new system eligible students with full entitlement who are 2011 cohort students
56. Students with reduced entitlement
57. Students residing with parents
58. Loans for living costs payable in respect of three quarters of the academic year
59. Students falling into more than one category
60. Students becoming eligible during the course of an academic year
61. Increases in maximum amount
62. Deductions from loans for living costs
63. Interpretation of Part 6

PART 7

GENERAL LOAN PROVISIONS

64. Additional amount of loans

PART 8

COLLEGE FEE LOANS

65. College fee loans

PART 9

FINANCIAL ASSESSMENT

66. Calculation of contribution
67. Application of contribution

PART 10

PAYMENTS

68. Payment of grants or loans for fees for old system eligible students

69. Talu grantiau neu fenthyciadau ar gyfer ffioedd i fyfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd
70. Talu grantiau at gostau byw
71. Darparu rhif yswiriant gwladol y Deyrnas Unedig
72. Gofynion o ran gwybodaeth
73. Talu benthyciadau at gostau byw
74. Gordaliadau
75. Taliadau – dehongli

## RHAN 11
## CYMORTH AT GYRSIAU DYSGU O BELL LLAWNAMSER

76. Myfyrwyr dysgu o bell cymwys
77. Myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod y flwyddyn academaidd
78 Cyrsiau dysgu o bell dynodedig
79. Cyfnod cymhwystra
80. Cymorth at gyrsiau dysgu o bell
81. Swm y cymorth
82. Dehongli rheoliad 81
83. Grant at gostau byw myfyrwyr dysgu o bell anabl
84. Ceisiadau am gymorth
85. Datganiadau a ddarperir gan awdurdodau academaidd
86. Gwybodaeth
87. Trosglwyddo statws
88. Trosi statws – myfyrwyr cymwys yn trosglwyddo i gyrsiau dysgu o bell dynodedig
89. Trosi statws – myfyrwyr dysgu o bell cymwys yn trosglwyddo i gyrsiau dynodedig
90. Talu grantiau ar gyfer ffioedd
91. Talu grantiau at lyfrau, teithio a gwariant arall a grantiau at gostau byw myfyrwyr dysgu o bell anabl
92. Gordaliadau

## RHAN 12
## CYMORTH AT GYRSIAU RHAN-AMSER

93. Myfyrwyr rhan-amser cymwys
94. Myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod y flwyddyn academaidd
95. Cyrsiau rhan-amser dynodedig
96. Cyfnod cymhwystra

69. Payment of grants or loans for fees for new system eligible students
70. Payment of grants for living costs
71. Provision of United Kingdom national insurance number
72. Information requirements
73. Payment of loans for living costs
74. Overpayments
75. Payments - Interpretation

## PART 11
## SUPPORT FOR FULL-TIME DISTANCE LEARNING COURSES

76. Eligible distance learning students
77. Students becoming eligible during the course of the academic year
78. Designated distance learning courses
79. Period of eligibility
80. Support for distance learning courses
81. Amount of support
82. Interpretation of regulation 81
83. Grant for disabled distance learning students' living costs
84. Applications for support
85. Declarations provided by academic authorities
86. Information
87. Transfer of status
88. Conversion of status - eligible students transferring to designated distance learning courses
89. Conversion of status - eligible distance learning students transferring to designated courses
90. Payment of grants for fees
91. Payment of grants for books, travel and other expenditure and grants for disabled distance learning students' living costs
92. Overpayments

## PART 12
## SUPPORT FOR PART-TIME COURSES

93. Eligible part-time students
94. Students becoming eligible during the course of the academic year
95. Designated part-time courses
96. Period of eligibility

97. Cymorth at gyrsiau rhan-amser sy'n dechrau cyn 1 Medi 2014 (grant at ffioedd, a grant at lyfrau, teithio a gwariant arall)
98. Benthyciad newydd at ffioedd rhan-amser
99. Grant newydd at gyrsiau rhan-amser
100. Grantiau at gostau byw myfyrwyr rhan-amser anabl
101–102. Grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion – cyffredinol
103. Grant rhan-amser ar gyfer dibynyddion mewn oed
104. Grant rhan-amser ar gyfer gofal plant
105. Lwfans dysgu rhan-amser ar gyfer rhieni
106. Grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion – y cyfrifiadau cychwynnol
107. Grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion – dehongli
108. Grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion –cyfrifo'r cyfraniad
109. Grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion – cymhwyso'r cyfraniad
110. Grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion – y cyfrifiad terfynol
111. Ceisiadau am gymorth
112. Cymorth at ffioedd o ran presenoldeb ar gyrsiau rhan-amser yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban sy'n dechrau cyn 1 Medi 2014
113. Gwybodaeth a materion eraill
114. Trosglwyddo statws
115. Trosi statws
116–117. Talu cymorth i fyfyrwyr rhan-amser cymwys
118. Dehongli rheoliad 117
119. Talu grantiau ar gyfer ffioedd mewn perthynas â chyrsiau rhan-amser dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Medi 2014
120. Talu benthyciad newydd at ffioedd rhan-amser
121. Gordaliadau

RHAN 13

CYMORTH I FYFYRWYR ÔL-RADDEDIG SYDD AG ANABLEDDAU

122. Myfyrwyr ôl-raddedig cymwys
123. Myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod y flwyddyn academaidd

97. Support for part-time courses beginning before 1 September 2014 (fee grant and grant for books, travel and other expenditure)
98. New part-time fee loan
99. New part-time course grant
100. Grants for disabled part-time students' living costs
101-102. Part-time grants for dependants – general
103. Part-time adult dependants' grant
104. Part-time childcare grant
105. Part-time parents' learning allowance
106. Part-time grants for dependants – initial calculations
107. Part-time grants for dependants – interpretation
108. Part-time grants for dependants – calculation of contribution
109. Part-time grants for dependants – application of contribution
110. Part-time grants for dependants – final calculation
111. Applications for support
112. Assistance with fees in respect of attendance on part-time courses in England, Northern Ireland or Scotland beginning before 1 September 2014
113. Information and other matters
114. Transfer of status
115. Conversion of status
116-117. Payment of support to eligible part-time students
118. Interpretation of regulation 117
119. Payment of grants for fees in respect of designated part-time courses beginning before 1 September 2014
120. Payment of new part-time fee loan
121. Overpayments

PART 13

SUPPORT FOR POSTGRADUATE STUDENTS WITH DISABILITIES

122. Eligible postgraduate students
123. Students becoming eligible during the course of the academic year

124. Cyrsiau ôl-radd dynodedig
125. Cyfnod cymhwystra
126. Trosglwyddo statws
127. Ceisiadau am gymorth
128. Gwybodaeth
129. Swm y grant
130. Talu'r grant
131. Gordaliadau

## RHAN 14
## DIWYGIO RHEOLIADAU 2012

132. Diwygio Rheoliadau 2012

## ATODLEN 1 MYFYRWYR CYMWYS
## RHAN 1
### DEHONGLI
## RHAN 2
### CATEGORÏAU
## ATODLEN 2 CYRSIAU DYNODEDIG
## ATODLEN 3 GWYBODAETH
## ATODLEN 4 BENTHYCIADAU AT FFIOEDD COLEG
## ATODLEN 5 ASESIAD ARIANNOL
## ATODLEN 6 ASESIAD ARIANNOL – GRANTIAU RHAN-AMSER AR GYFER DIBYNYDDION

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1998 p.30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p.1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p.14), adran 147, Deddf Addysg Uwch 2004 (p.8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7 a Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22), adran 257. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c) (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149) (C.79)), fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159) (C.56)). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

124. Designated postgraduate courses
125. Period of eligibility
126. Transfer of status
127. Applications for support
128. Information
129. Amount of grant
130. Payment of grant
131. Overpayments

## PART 14
## AMENDMENT OF THE 2012 REGULATIONS

132. Amendment of the 2012 Regulations

## SCHEDULE 1 ELIGIBLE STUDENTS
## PART 1
### INTERPRETATION
## PART 2
### CATEGORIES
## SCHEDULE 2 DESIGNATED COURSES
## SCHEDULE 3 INFORMATION
## SCHEDULE 4 COLLEGE FEE LOANS
## SCHEDULE 5 FINANCIAL ASSESSMENT
## SCHEDULE 6 FINANCIAL ASSESSMENT PART-TIME GRANTS FOR DEPENDANTS

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 22 and 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998(**1**), and now exercisable by them(**2**) make the following Regulations:

(**1**) 1998 c.30; section 22 was amended by the Learning and Skills Act 2000 (c.21), section 146 and Schedule 11, the Income Tax (Earnings and Pensions) Act 2003 (c.1), Schedule 6, the Finance Act 2003 (c.14), section 147, the Higher Education Act 2004 (c.8), sections 42 and 43 and Schedule 7 and the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c.22), section 257. *See* section 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998 for the definition of "prescribed" and "regulations".

(**2**) The functions of the Secretary of State under section 22 of the Teaching and Higher Education Act 1998 (except so far as they relate to the making of any provision authorised by subsection (2)(a), (c), (j) or (k), (3)(e) or (f) or (5) of section 22) were transferred to the National Assembly for Wales by section 44 of the Higher Education Act 2004 and the Higher Education Act 2004 (Commencement No. 2 and Transitional Provision) (Wales) Order 2005 (S.I. 2005/1833 (W.149) (C.79)) as amended by the Higher Education Act 2004 (Commencement No. 2 and Transitional Provision) (Wales) (Amendment) Order 2006 (S.I. 2006/1660 (W.159) (C.56)). The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraphs 30(1) and 30(2)(c) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

# RHAN 1

## CYFFREDINOL

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 10 Ionawr 2014 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "a ariennir yn gyhoeddus" ac "a ariannwyd yn gyhoeddus" ("*publicly funded*") yw cael ei gynnal neu ei gynorthwyo gan grantiau rheolaidd o'r cronfeydd cyhoeddus, ac mae ymadroddion perthynol i'w dehongli yn unol â hyn;

mae i "athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig" ac "athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig" yr ystyr a roddir i "*qualified teacher*" yn adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002(**1**);

ystyr "yr Athrofa" ("*Institute*") yw Sefydliad Prifysgol Llundain ym Mharis(**2**);

ystyr "awdurdod academaidd" ("*academic authority*"), mewn perthynas â sefydliad, yw'r corff llywodraethu neu'r corff arall sydd â swyddogaethau corff llywodraethu ac mae'n cynnwys person sy'n gweithredu gydag awdurdod y corff hwnnw;

ystyr "benthyciad" ("*loan*"), ac eithrio lle nodir fel arall, yw benthyciad yn unol ag unrhyw reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998, gan gynnwys y llog sy'n crynhoi ar y benthyciad ac unrhyw gosbau neu daliadau a ysgwyddir mewn cysylltiad ag ef;

ystyr "benthyciad at ffioedd" ("*fee loan*") yw benthyciad ar gyfer ffioedd sy'n daladwy i fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd yn unol â Rhan 4;

ystyr "benthyciad at ffioedd coleg" ("*college fee loan*") yw benthyciad at ffioedd coleg sy'n daladwy i fyfyriwr cymhwysol yn unol â rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998;

(**1**) 2002 p. 32.

(**2**) Gynt yr enw ar Sefydliad Prifysgol Llundain ym Mharis oedd y Sefydliad Prydeinig ym Mharis. Newidiodd y Sefydliad Prydeinig ym Mharis ei enw'n ffurfiol ar 1 Ionawr 2005.

# PART 1

## GENERAL

### Title, commencement and application

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2013.

(2) These Regulations come into force on 10 January 2014 and apply in relation to Wales.

### Interpretation

**2.**—(1) In these Regulations, except where the context otherwise requires—

"the 1962 Act" ("*Deddf 1962*") means the Education Act 1962(**1**);

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the Teaching and Higher Education Act 1998;

"the 1998 Regulations" ("*Rheoliadau 1998*") means the Education (Student Support) Regulations 1998(**2**);

"the 1999 Regulations" ("*Rheoliadau 1999*") means the Education (Student Support) Regulations 1999(**3**);

"the 2000 Regulations" ("*Rheoliadau 2000*") means the Education (Student Support) Regulations 2000(**4**);

"the 2001 Regulations" ("*Rheoliadau 2001*") means the Education (Student Support) Regulations 2001(**5**);

(**1**) 1962 c. 12; sections 1 to 4 and Schedule 1 were substituted by the provisions set out in Schedule 5 to the Education Act 1980 (c. 20). Section 1(3)(d) was amended by the Education (Grants and Awards) Act 1984 (c. 11), section 4. Section 4 was amended by the Education Act 1994 (c. 30), Schedule 2, paragraph 2. The entire Act was repealed by the Teaching and Higher Education Act 1998 (c. 30), section 44(2) and Schedule 4, subject to the transitional provisions and savings set out in the Teaching and Higher Education Act 1998 (Commencement No. 4 and Transitional Provisions) Order 1998 (S.I. 1998/3237), article 3.

(**2**) S.I. 1998/2003, revoked with savings by S.I. 1999/496.

(**3**) S.I. 1999/496, amended by S.I. 1999/2266 and S.I. 2000/1120. These instruments were revoked by S.I. 2000/1121, except in relation to the provision of support to students in respect of an academic year which begins before 1 September 2000.

(**4**) S.I. 2000/1121, amended by S.I. 2000/1490, S.I. 2000/2142 and S.I. 2000/2912. These instruments were revoked by S.I. 2001/951 except in relation to the provision of support to students in respect of an academic year which begins before 1 September 2001.

(**5**) S.I. 2001/951, amended by S.I. 2001/1730, S.I. 2001/2355 and S.I. 2002/174. These instruments were revoked by S.I. 2002/195 except in relation to the provision of support to students in respect of an academic year which begins before 1 September 2002.

ystyr “benthyciad at ffioedd mynediad graddedig carlam” (“*accelerated graduate entry fee loan*”) yw benthyciad sy’n daladwy gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 27;

ystyr “benthyciad at gostau byw” (“*loan for living costs*”) yw benthyciad at gostau byw yn unol â rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998;

(f) "financial year" ("*blwyddyn ariannol*") means the period of twelve months in respect of which the income of a dependant (whose income is calculated under regulations 31 to 34) is computed for the purposes of the income tax legislation which applies to it;

(g) "lone parent" ("*rhiant unigol*") means an eligible student who does not have a partner and who has a dependent child;

(h) "Member State" ("*Aelod-wladwriaeth*") means a Member State of the European Union;

(i) "net income" ("*incwm net*") has the meaning given in paragraph (7);

(j) subject to sub-paragraphs (p), (q), (r) and paragraphs (3) and (4), "partner" ("*partner*") means any of the following—

(i) the spouse of an eligible student;

(ii) the civil partner of an eligible student;

(iii) a person ordinarily living with an eligible student as if the person were the eligible student's spouse where an eligible student falls within paragraph 2(1)(a) of Schedule 5

dechrau ar y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2000;

(iv) person sydd fel arfer yn byw gyda myfyriwr cymwys fel pe bai'r person yn bartner sifil i'r myfyriwr cymwys, pan fo'r myfyriwr cymwys yn dod o fewn paragraff 2(1)(a) o Atodlen 5 ac wedi dechrau ar y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2005;

(k) ystyr "blwyddyn ariannol flaenorol" ("*preceding financial year*") yw'r flwyddyn ariannol yn union cyn y flwyddyn berthnasol;

(l) ystyr "blwyddyn ariannol gynharach" ("*prior financial year*") yw'r flwyddyn ariannol yn union cyn y flwyddyn ariannol flaenorol;

(m) ystyr "blwyddyn berthnasol" ("*relevant year*") yw blwyddyn academaidd y cwrs presennol y mae incwm dibynnydd y myfyriwr cymwys yn dod o'i mewn i'w asesu mewn perthynas â hi;

(n) ystyr "incwm gweddilliol" ("*residual income*") yw incwm trethadwy ar ôl cymhwyso paragraff (10) (yn achos partner myfyriwr cymwys) neu baragraff (11) (yn achos dibynnydd mewn oed myfyriwr cymwys);

(o) ystyr "incwm trethadwy" ("*taxable income*") yw, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol gynharach, incwm trethadwy person o bob ffynhonnell a gyfrifiennir at ddibenion—

(i) y Deddfau Treth Incwm;

(ii) deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall sy'n gymwys i incwm y person; neu

(iii) pan fo deddfwriaeth mwy nag un Aelod-wladwriaeth yn gymwys i'r cyfnod, y ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y bydd y person yn talu'r swm mwyaf o dreth yn y cyfnod hwnnw odani,

ac eithrio nad ystyrir yr incwm y cyfeirir ato ym mharagraff (2) a delir i barti arall;

(p) oni nodir fel arall, nid yw person a fyddai fel arall yn bartner o dan is-baragraff (j) yn cael ei drin fel partner—

(i) os yw'r person hwnnw a'r myfyriwr cymwys, ym marn Gweinidogion Cymru, wedi gwahanu; neu

(ii) os yw'r person fel arfer yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac nad yw'n cael ei gynnal gan y myfyriwr cymwys;

and began the designated course on or after 1 September 2000;

(iv) a person ordinarily living with an eligible student as if the person were the eligible student's civil partner where an eligible student falls within paragraph 2(1)(a) of Schedule 5 and began the designated course on or after 1 September 2005;

(k) "preceding financial year" ("*blwyddyn ariannol flaenorol*") means the financial year immediately preceding the relevant year;

(l) "prior financial year" ("*blwyddyn ariannol gynharach*") means the financial year immediately preceding the preceding financial year;

(m) "relevant year" ("*blwyddyn berthnasol*") means the academic year of the present course in respect of which the eligible student's dependant's income falls to be assessed;

(n) "residual income" ("*incwm gweddilliol*") means taxable income after the application of paragraph (10) (in the case of an eligible student's partner) or paragraph (11) (in the case of an eligible student's adult dependant);

(o) "taxable income" ("*incwm trethadwy*") means, in respect of the prior financial year, a person's taxable income from all sources computed for the purposes of—

(i) the Income Tax Acts;

(ii) the income tax legislation of another Member State which applies to the person's income; or

(iii) where the legislation of more than one Member State applies to the period, the legislation under which the Welsh Ministers consider the person will pay the largest amount of tax in that period,

except that no account is taken of the income referred to in paragraph (2) which is paid to another party;

(p) unless otherwise indicated, a person who would otherwise be a partner under sub-paragraph (j) is not treated as a partner if—

(i) in the opinion of the Welsh Ministers, that person and the eligible student are separated; or

(ii) the person is ordinarily living outside the United Kingdom and is not maintained by the eligible student;

(q) at ddibenion y diffiniad o "dibynnydd mewn oed" ("*adult dependant*"), rhaid trin person fel partner os byddai'r person yn bartner o dan is-baragraff (j) oni bai am y ffaith nad yw'r myfyriwr cymwys y mae'r person fel arfer yn byw gydag ef yn dod o fewn paragraff 2(1)(a) o Atodlen 5;

(r) at ddibenion y diffiniadau o "plentyn" ("*child*") a "rhiant unigol" ("*lone parent*"), rhaid trin person fel partner os byddai'r person yn bartner o dan is-baragraff (j) oni bai am y dyddiad y dechreuodd y myfyriwr cymwys ar y cwrs dynodedig a bennir neu'r ffaith nad yw'r myfyriwr cymwys y mae'r person fel arfer yn byw gydag ef yn dod o fewn paragraff 2(1)(a) o Atodlen 5.

(2) Yr incwm y cyfeirir ato yn y paragraff hwn yw unrhyw fudd-daliadau o dan drefniant pensiwn yn unol â gorchymyn a wnaed o dan adran 23 o Ddeddf Achosion Priodasol 1973(**1**) sy'n cynnwys darpariaeth a wnaed yn rhinwedd adrannau 25B(4) a 25E(3) o'r Ddeddf honno neu fudd-daliadau pensiwn o dan Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004(**2**) sy'n cynnwys darpariaeth a wnaed yn rhinwedd Rhannau 6 a 7 o'r Atodlen honno.

(3) At ddibenion rheoliad 33—

(a) nid yw paragraff (1)(p) yn gymwys; a

(b) rhaid trin person fel partner os byddai'r person yn bartner o dan baragraff (1)(j) oni bai am y ffaith nad yw'r myfyriwr cymwys y mae'r person fel arfer yn byw gydag ef yn dod o fewn paragraff 2(1)(a) o Atodlen 5.

(4) At ddibenion penderfynu a yw rhywun yn gynbartner i bartner i fyfyriwr cymwys, ystyr "partner" ("*partner*") o ran partner i fyfyriwr cymwys yw—

(a) priod i bartner myfyriwr cymwys;

(b) partner sifil i bartner myfyriwr cymwys;

(c) pan fo'r myfyriwr cymwys wedi dechrau ar y cwrs dynodedig a bennir ar neu ar ôl 1 Medi 2000, person ("A") sydd fel arfer yn byw gyda phartner ("B") myfyriwr cymwys fel petai A yn briod i B;

(d) pan fo'r myfyriwr cymwys wedi dechrau ar y cwrs dynodedig a bennir ar neu ar ôl 1 Medi 2005, person ("A") sydd fel arfer yn byw gyda phartner ("B") myfyriwr cymwys fel petai A yn bartner sifil i B;

(**1**) 1973 p.18, diwygiwyd adran 23 gan Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982 (p.53), adran 16 a chan Ddeddf Achosion Priodasol a Theulu 1984 (p.42), adran 21.

(**2**) 2004 p.33, diwygiwyd Atodlen 5 gan Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), adran 17 ac Atodlen 11.

(q) for the purposes of the definition of "adult dependant" ("*dibynnydd mewn oed*"), a person is to be treated as a partner if the person would be a partner under sub-paragraph (j) but for the fact that the eligible student with whom the person is ordinarily living does not fall within paragraph 2(1)(a) of Schedule 5;

(r) for the purposes of the definitions of "child" ("*plentyn*") and "lone parent" ("*rhiant unigol*"), a person is to be treated as a partner if the person would be a partner under sub-paragraph (j) but for the date on which the eligible student began the specified designated course or the fact that the eligible student with whom the person is ordinarily living does not fall within paragraph 2(1)(a) of Schedule 5.

(2) The income referred to in this paragraph is any benefits under a pension arrangement pursuant to an order made under section 23 of the Matrimonial Causes Act 1973(**1**) which includes provision made by virtue of sections 25B(4) and 25E(3) of that Act or pension benefits under Part 1 of Schedule 5 to the Civil Partnership Act 2004(**2**) which includes provision made by virtue of Parts 6 and 7 of that Schedule.

(3) For the purposes of regulation 33—

(a) paragraph (1)(p) does not apply; and

(b) a person is to be treated as a partner if the person would be a partner under paragraph (1)(j) but for the fact that the eligible student with whom the person is ordinarily living does not fall within paragraph 2(1)(a) of Schedule 5.

(4) For the purposes of determining whether a person is the former partner of an eligible student's partner, "partner" ("*partner*") in relation to an eligible student's partner means—

(a) the spouse of an eligible student's partner;

(b) the civil partner of an eligible student's partner:

(c) where the eligible student began the specified designated course on or after 1 September 2000, a person ("A") ordinarily living with an eligible student's partner ("B") as if A were B's spouse;

(d) where the eligible student began the specified designated course on or after 1 September 2005, a person ("A") ordinarily living with an eligible student's partner ("B") as if A were B's civil partner.

(**1**) 1973 c.18, section 23 was amended by the Administration of Justice Act 1982 (c.53), section 16 and by the Matrimonial and Family Proceedings Act 1984 (c.42), section 21.

(**2**) 2004 c.33, Schedule 5 was amended by the Crime and Courts Act 2013 (c.22), section 17 and Schedule 11.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), at ddibenion y diffiniadau o "dibynnydd mewn oed" ("*adult dependant*") a "plentyn dibynnol" ("*dependent child*") caiff Gweinidogion Cymru ymdrin â pherson mewn oed neu blentyn fel un sy'n ddibynnol ar fyfyriwr cymwys os ydynt yn fodlon nad yw'r oedolyn neu'r plentyn—

(a) yn ddibynnol ar—

(i) y myfyriwr cymwys yn unig; neu

(ii) partner y myfyriwr cymwys yn unig; ond

(b) yn hytrach yn ddibynnol ar y myfyriwr cymwys a'i bartner gyda'i gilydd.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio ag ymdrin ag oedolyn ("A") fel un sy'n ddibynnol ar fyfyriwr cymwys yn unol â pharagraff (5), os yw A—

(a) yn briod neu'n bartner sifil i bartner y myfyriwr cymwys (yn cynnwys priod neu bartner sifil yr ystyria Gweinidogion Cymru bod partner y myfyriwr cymwys wedi gwahanu oddi wrtho); neu

(b) yn gynbartner partner y myfyriwr cymwys.

(7) Incwm net dibynnydd yw incwm y dibynnydd o bob ffynhonnell (am y flwyddyn berthnasol at ddibenion rheoliad 31(2)(b) ac am y flwyddyn ariannol gynharach at ddibenion rheoliad 34(2)) wedi ei ostwng yn ôl swm y dreth incwm a'r cyfraniadau nawdd cymdeithasol sy'n daladwy mewn perthynas â hi ond gan anwybyddu—

(a) unrhyw bensiwn, lwfans neu fudd-dal arall a delir oherwydd anabledd neu analluedd sydd gan y dibynnydd;

(b) budd-dal plant sy'n daladwy o dan Ran IX o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**1**);

(c) unrhyw gymorth ariannol sy'n daladwy i'r dibynnydd gan awdurdod lleol yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adrannau 2, 3 a 4 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**2**);

(d) unrhyw lwfans gwarcheidwad y mae gan y dibynnydd hawlogaeth i'w gael o dan adran 77 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992;

(e) yn achos dibynnydd y mae plentyn sy'n derbyn gofal awdurdod lleol wedi ei fyrddio gydag ef, unrhyw daliad a wneir i'r dibynnydd hwnnw yn unol ag adran 23 o Ddeddf Plant 1989(**3**);

(**1**) 1992 p.4, y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) 2002 p. 38.

(**3**) 1989 p.41. Diwygiwyd adran 23 gan Ddeddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990 (p.41), Atodlen 16, paragraff 12,

(5) Subject to paragraph (6), for the purposes of the definitions of "adult dependant" ("*dibynnydd mewn oed*") and "dependent child" ("*plentyn dibynnol*"), the Welsh Ministers may treat an adult person or child as dependent on an eligible student if they are satisfied that the adult person or child—

(a) is not dependent on only—

(i) the eligible student; or

(ii) the eligible student's partner; but

(b) is dependent on the eligible student and the eligible student's partner together.

(6) The Welsh Ministers must not treat an adult person ("A") as dependent on an eligible student in accordance with paragraph (5), if A is—

(a) the spouse or civil partner of the eligible student's partner (including a spouse or civil partner from whom the Welsh Ministers consider the eligible student's partner is separated); or

(b) the former partner of the eligible student's partner.

(7) A dependant's net income is the dependant's income from all sources (for the relevant year for the purposes of regulation 31(2)(b) and for the prior financial year for the purposes of regulation 34(2)) reduced by the amount of income tax and social security contributions payable in respect of it but disregarding—

(a) any pension, allowance or other benefit paid by reason of a disability or incapacity to which the dependant is subject;

(b) child benefit payable under Part IX of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992(**1**);

(c) any financial support payable to the dependant by a local authority in accordance with regulations made under sections 2, 3 and 4 of the Adoption and Children Act 2002(**2**);

(d) any guardian's allowance to which the dependant is entitled under section 77 of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992;

(e) in the case of a dependant with whom a child being looked after by a local authority is boarded out, any payment made to that dependant in pursuance of section 23 of the Children Act 1989(**3**);

(**1**) 1992 c. 4 to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(**2**) 2002 c. 38.

(**3**) 1989 c. 41. Section 23 was amended by the Courts and Legal Services Act 1990 (c. 41), Schedule 16, paragraph 12, the Care

(f) unrhyw daliad a wneir i'r dibynnydd o dan adran 23C(5A) o Ddeddf Plant 1989(**1**);

(g) unrhyw daliadau a wneir i'r dibynnydd o dan adran 15 o Ddeddf Plant 1989 ac Atodlen 1 iddi mewn perthynas â pherson nad yw'n blentyn i'r dibynnydd neu unrhyw gymorth a roddir gan awdurdod lleol yn unol ag adran 24 o'r Ddeddf honno(**2**);

(h) unrhyw gredyd treth plant y mae gan y dibynnydd hawlogaeth i'w gael o dan Ran I o Ddeddf Credydau Treth 2002(**3**); ac

(i) yn achos dibynnydd sydd â hawlogaeth i gael dyfarniad o gredyd cynhwysol—

(i) unrhyw swm a gynhwysir wrth gyfrifo'r dyfarniad o dan reoliad 27(1) o Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013, mewn perthynas â'r ffaith bod gan y dibynnydd allu cyfyngedig i weithio neu allu cyfyngedig i weithio ac i wneud gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith; a

(ii) unrhyw swm neu swm ychwanegol a gynhwysir wrth gyfrifo'r dyfarniad o dan reoliad 24 o'r Rheoliadau hynny (elfen y plentyn).

(8) Os yw myfyriwr cymwys neu bartner y myfyriwr cymwys yn gwneud unrhyw daliadau ailgylchol a oedd yn cael eu gwneud o'r blaen gan y myfyriwr cymwys yn unol â rhwymedigaeth a ysgwyddwyd cyn blwyddyn academaidd gyntaf cwrs y myfyriwr cymwys, mae incwm gweddilliol partner y myfyriwr cymwys wedi ei ostwng—

(a) o swm sy'n hafal i'r taliadau o dan sylw am y flwyddyn academaidd, os cafodd y rhwymedigaeth, ym marn Gweinidogion Cymru, ei hysgwyddo'n rhesymol; neu

(b) o unrhyw swm llai, os bydd unrhyw swm o gwbl, sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru, os gellid yn rhesymol, yn eu barn hwy, bod wedi ysgwyddo rhwymedigaeth lai.

Deddf Safonau Gofal 2000 (p.14), Atodlen 4, paragraff 14, Deddf Plant 2004 (p.31), adran 49(3) a Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p.23), adran 39 ac Atodlen 3, paragraffau 1 a 7.

(**1**) Mewnosodwyd is-adrannau (5A) i (5C) o adran 23C o Ddeddf Plant 1989, o ran Lloegr, gan adran 21 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 ac mae O.S. 2009/268 ac O.S. 2009/2273 yn cyfeirio at hyn. Mewnosodwyd is-adrannau (5A) i (5C) yn adran 23C o ran Cymru, ac mae O.S. 2010/1329 (Cy.112) (C.81) ac O.S. 2011/ 824 (Cy. 123) (C. 32) yn cyfeirio at hyn.

(**2**) Mae diwygiadau i adrannau 15 a 24 ac Atodlen 1 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) 2002 p.21 y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(f) any payment made to the dependant under section 23C(5A) of the Children Act 1989(**1**);

(g) any payments made to the dependant under section 15 of and Schedule 1 to the Children Act 1989 in respect of a person who is not the dependant's child or any assistance given by a local authority pursuant to section 24 of that Act(**2**);

(h) any child tax credit to which the dependant is entitled under Part I of the Tax Credits Act 2002(**3**); and

(i) in the case of a dependant who is entitled to an award of universal credit—

(i) any amount that is included in the calculation of the award under regulation 27(1) of the Universal Credit Regulations 2013, in respect of the fact that the dependant has limited capability for work or limited capability for work and work related activity; and

(ii) any amount or additional amount that is included in the calculation of the award under regulation 24 of those Regulations (the child element).

(8) Where an eligible student or the eligible student's partner makes any recurrent payments which were previously made by the eligible student in pursuance of an obligation incurred before the first academic year of the eligible student's course, the eligible student's partner's residual income is reduced by—

(a) an amount equal to the payments in question for the academic year, if in the opinion of the Welsh Ministers, the obligation had been reasonably incurred; or

(b) such lesser amount, if any, as the Welsh Ministers consider appropriate if, in their opinion, a lesser obligation could reasonably have been incurred.

Standards Act 2000 (c.14), Schedule 4, paragraph 14, the Children Act 2004 (c.31), section 49(3) and the Children and Young Persons Act 2008 (c. 23), section 39 and Schedule 3, paragraphs 1 and 7.

(**1**) Subsections (5A) to (5C) of section 23C of the Children Act 1989 were inserted, in relation to England, by section 21 of the Children and Young Persons Act 2008 and S.I. 2009/268 and S.I. 2009/ 2273 refer. Subsections (5A) to (5C)) were inserted into section 23C in relation to Wales and S.I. 2010/1329 (W. 112) (C.81) and S.I. 2011/824 (W. 123) (C. 32) refer.

(**2**) There are amendments to sections 15 and 24 and Schedule 1 which are not relevant to these Regulations.

(**3**) 2002 c. 21 to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(9) At ddibenion paragraff (7), os yw'r dibynnydd yn blentyn dibynnol a bod taliadau'n cael eu gwneud i'r myfyriwr cymwys tuag at gynhaliaeth y plentyn dibynnol, rhaid trin y taliadau hynny fel incwm y plentyn dibynnol.

(10) Penderfynir ar incwm gweddilliol partner myfyriwr cymwys yn unol â pharagraff 6 o Atodlen 5.

(11) Penderfynir ar incwm gweddilliol dibynnydd mewn oed myfyriwr cymwys yn unol â pharagraff 5 o Atodlen 5 (ac eithrio is-baragraffau (9), (10), neu (11) o baragraff 5) gan ddehongli cyfeiriadau at y rhiant fel pe baent yn gyfeiriadau at ddibynnydd mewn oed y myfyriwr cymwys.

**Dehongli rheoliadau 37 i 39**

**36.** At ddibenion rheoliadau 37 i 39—

(a) mae unrhyw gyfeiriad at wariant a ysgwyddir at y diben o fod yn bresennol mewn sefydliad neu gyfnod astudio neu gyfnod ar leoliad gwaith dramor yn ystod blwyddyn Erasmus—

(i) yn cynnwys gwariant cyn ac ar ôl bod yn bresennol felly; a

(ii) nid yw'n cynnwys unrhyw wariant y mae grant yn daladwy mewn perthynas ag ef o dan reoliad 29;

(b) ystyr "chwarter cymhwysol" ("*qualifying quarter*") yw chwarter pan fo'r myfyriwr cymwys yn bresennol, fel rhan o gwrs y myfyriwr cymwys, mewn sefydliad tramor, yr Athrofa, neu leoliad gwaith tramor yn ystod blwyddyn Erasmus, am o leiaf hanner cyfnod y chwarter hwnnw.

**Amodau'r hawl i gael y grant at deithio**

**37.**—(1) Mae grant ar gael i fyfyriwr cymwys sy'n mynychu cwrs mewn meddygaeth neu ddeintyddiaeth (y mae rhan hanfodol ohono'n gyfnod o astudio ar ffurf hyfforddiant clinigol) mewn perthynas â'r gwariant rhesymol y mae'n orfodol i'r myfyriwr cymwys ei ysgwyddo mewn blwyddyn academaidd at ddiben mynychu, mewn cysylltiad â chwrs y myfyriwr cymwys, unrhyw ysbyty neu fangre arall yn y Deyrnas Unedig (nad yw'n rhan o'r sefydliad) lle y darperir cyfleusterau ar gyfer hyfforddiant clinigol ac eithrio gwariant a ysgwyddir at ddiben cyfnod o astudio preswyl heb fod yn y sefydliad.

(2) Mae grant ar gael i fyfyriwr cymwys ynglŷn â'r gwariant rhesymol y mae'n orfodol iddo'i ysgwyddo ym mhob chwarter cymhwysol naill ai yn y Deyrnas Unedig neu'r tu allan iddi er mwyn bod yn bresennol, fel rhan o'i gwrs, mewn sefydliad tramor, yr Athrofa

(9) For the purposes of paragraph (7), where the dependant is a dependent child and payments are made to the eligible student towards the dependent child's maintenance, those payments are to be treated as the dependent child's income.

(10) An eligible student's partner's residual income is determined in accordance with paragraph 6 of Schedule 5.

(11) An eligible student's adult dependant's residual income is determined in accordance with paragraph 5 of Schedule 5 (other than sub-paragraphs (9), (10), or (11) of paragraph 5) with references to the parent being construed as references to the eligible student's adult dependant.

**Interpretation of regulations 37 to 39**

**36.** For the purposes of regulations 37 to 39—

(a) any reference to expenditure incurred for the purpose of attending an institution or period of study or period of overseas work placement in an Erasmus year—

(i) includes expenditure both before and after so attending; and

(ii) does not include any expenditure in respect of which a grant is payable under regulation 29;

(b) "qualifying quarter" ("*chwarter cymhwysol*") means a quarter during which the eligible student attends as part of the eligible student's course an overseas institution, the Institute or overseas work placement in an Erasmus year for at least half the period covered by that quarter.

**Qualifying conditions for the grant for travel**

**37.**—(1) A grant is available to an eligible student attending a course in medicine or dentistry (a necessary part of which is a period of study by way of clinical training) in respect of the reasonable expenditure which the eligible student is obliged to incur in an academic year for the purpose of attending in connection with the eligible student's course any hospital or other premises in the United Kingdom (not comprised in the institution) at which facilities for clinical training are provided other than expenditure incurred for the purpose of residential study away from the institution.

(2) A grant is available to an eligible student in respect of the reasonable expenditure which the eligible student is obliged to incur in each qualifying quarter within or outside the United Kingdom for the purpose of attending as part of the eligible student's

neu leoliad gwaith dramor yn ystod blwyddyn Erasmus.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae grant o dan y rheoliad hwn yn daladwy i fyfyriwr cymwys mewn perthynas â phedwar chwarter y flwyddyn academaidd.

(4) Pan fo un o'r digwyddiadau a restrir yn rheoliad 28(13) yn digwydd yn ystod blwyddyn academaidd, dim ond mewn perthynas â'r chwarteri hynny sy'n dechrau ar ôl i'r digwyddiad perthnasol ddigwydd y caiff myfyriwr cymwys fod â hawl i gael grant o dan y rheoliad hwn.

**Swm y grant at deithio**

**38.**—(1) Mae swm y grant sy'n daladwy o dan reoliad 37(1) mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn hafal i'r gwariant rhesymol y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod yn orfodol i'r myfyriwr cymwys ei ysgwyddo at y dibenion a nodir yn y rheoliad hwnnw llai £303.

(2) Cyfrifir swm y grant sy'n daladwy o dan reoliad 37(2) mewn perthynas â blwyddyn academaidd fel a ganlyn—

($X$ - £303) + $Y$ lle mae—

$X$ yn cynrychioli swm cyfanredol y costau teithio rhesymol y mae'n orfodol i'r myfyriwr cymwys eu hysgwyddo ym mhob chwarter cymhwysol at y dibenion a nodir yn rheoliad 37; ac

$Y$ yn cynrychioli swm cyfanredol y gwariant a ysgwyddwyd ym mhob chwarter cymhwysol ac a bennir ym mharagraff (3).

(3) Y gwariant a bennir, y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yw—

(a) gwariant y mae'r myfyriwr cymwys yn rhesymol yn ei ysgwyddo wrth yswirio rhag atebolrwydd am gost triniaeth feddygol a ddarperir y tu allan i'r Deyrnas Unedig am unrhyw salwch neu anaf corfforol a ddioddefir gan y myfyriwr cymwys yn ystod y cyfnod y mae'n bresennol yn y sefydliad tramor, yr Athrofa, neu leoliad gwaith dramor yn ystod blwyddyn Erasmus ("y lleoliad" yn y paragraff hwn);

(b) cost fisa neu fisâu y mae'n orfodol i'r myfyriwr cymwys eu cael er mwyn bod yn bresennol yn y sefydliad tramor, yr Athrofa neu'r lleoliad; ac

(c) costau meddygol y mae'n rhesymol i'r myfyriwr cymwys eu hysgwyddo er mwyn cyflawni amod gorfodol i fynd i'r diriogaeth, y wlad neu'r wladwriaeth lle y mae'r sefydliad tramor, yr Athrofa neu'r lleoliad.

course an overseas institution, the Institute or overseas work placement in an Erasmus year.

(3) Subject to paragraph (4), a grant under this regulation is payable to an eligible student in respect of the four quarters of the academic year.

(4) Where one of the events listed in regulation 28(13) occurs in the course of an academic year, an eligible student may only qualify for a grant under this regulation in respect of such quarters as begin after the relevant event occurs.

**Amount of the grant for travel**

**38.**—(1) The amount of grant payable under regulation 37(1) in respect of an academic year is equal to the reasonable expenditure that the Welsh Ministers determine the eligible student is obliged to incur for the purposes set out in that regulation less £303.

(2) The amount of grant payable under regulation 37(2) in respect of an academic year is calculated as follows—

($X$ - £303) + $Y$ where—

$X$ is the aggregate of the reasonable travel costs that the eligible student is obliged to incur in each qualifying quarter for the purposes set out in regulation 37.

$Y$ is the aggregate of the expenditure incurred in each qualifying quarter specified in paragraph (3).

(3) The expenditure specified in paragraph (2) is—

(a) expenditure that the eligible student reasonably incurs in insuring against liability for the cost of medical treatment provided outside the United Kingdom for any illness or personal injury contracted or suffered during the period the eligible student is attending the overseas institution, the Institute or overseas work placement in an Erasmus year ("the placement" in this paragraph);

(b) the cost of a visa or visas that the eligible student is obliged to obtain in order to attend the overseas institution, the Institute or placement; and

(c) medical costs that the eligible student reasonably incurs in order to fulfil a mandatory condition of entry into the territory, country or state in which the overseas institution, the Institute or placement is situated.

**Didyniadau o'r grant at deithio**

**39.** Caniateir gwneud didyniad o grant o dan reoliadau 37 a 38 yn unol â Rhan 9.

**Grantiau addysg uwch**

**40.**—(1) Mae gan fyfyriwr cymwys o dan yr hen drefn hawl yn unol â'r rheoliad hwn i gael grant addysg uwch mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs dynodedig i dalu costau llyfrau, offer, teithio neu ofal plant sy'n cael eu hysgwyddo at y diben o fod yn bresennol ar y cwrs hwnnw.

(2) Nid oes gan fyfyriwr cymwys o dan yr hen drefn hawl i gael grant addysg uwch oni bai ei fod wedi dechrau ar y cwrs dynodedig a bennir ar neu ar ôl 1 Medi 2004.

(3) Uchafswm y grant addysg uwch sydd ar gael mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw £1,000.

(4) Mae gan fyfyriwr cymwys o dan yr hen drefn sydd â hawl i gael grant addysg uwch hawlogaeth i gael swm fel a ganlyn—

(a) mewn unrhyw achos lle mae incwm yr aelwyd yn £16,765 neu lai, mae ganddo hawlogaeth i gael uchafswm y grant sydd ar gael;

(b) mewn unrhyw achos lle mae incwm yr aelwyd yn fwy na £16,765 ac nad yw'n fwy na £22,750, mae'r myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn yn cael swm sy'n hafal i **M–A**, pan fo **M** yn £1,000 ac **A** yn £1 am bob £6.30 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £16,765; ac

(c) mewn unrhyw achos lle mae incwm yr aelwyd yn fwy nag £22,750, nid oes grant yn daladwy o dan y rheoliad hwn.

**Grant cynhaliaeth**

**41.**—(1) Mae hawl gan fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd, nad yw'n fyfyriwr carfan newydd, i gael grant cynhaliaeth yn unol â rheoliad 42 at gostau byw mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs dynodedig.

(2) Mae hawl gan fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyriwr carfan 2010 neu'n fyfyriwr carfan 2012, i gael grant cynhaliaeth yn unol â rheoliad 43 at gostau byw mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs dynodedig.

(3) Mae hawl gan fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyriwr carfan 2011, i gael grant cynhaliaeth yn unol â rheoliad 44 at gostau byw mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs dynodedig.

(4) Nid oes hawl gan fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd i gael grant cynhaliaeth os oes hawl gan y

**Deductions from the grant for travel**

**39.** A deduction may be made from a grant under regulations 37 and 38 in accordance with Part 9.

**Higher education grants**

**40.**—(1) An old system eligible student qualifies in accordance with this regulation for a higher education grant in connection with the old system eligible student's attendance on a designated course to defray the cost of books, equipment, travel or childcare incurred for the purpose of attending that course.

(2) An old system eligible student does not qualify for a higher education grant unless the old system eligible student began the specified designated course on or after 1 September 2004.

(3) The maximum amount of higher education grant available in respect of an academic year is £1,000.

(4) An old system eligible student who qualifies for a higher education grant is entitled to receive an amount as follows—

(a) in any case where the household income is £16,765 or less, the old system eligible student is entitled to receive the maximum amount of grant available;

(b) in any case where the household income exceeds £16,765 and does not exceed £22,750, the old system eligible student receives an amount equal to **M – A**, where **M** is £1,000 and **A** is £1 for every £6.30 by which the household income exceeds £16,765; and

(c) in any case where the household income exceeds £22,750, no grant is payable under this regulation.

**Maintenance grant**

**41.**—(1) A new system eligible student who is not a new cohort student qualifies in accordance with regulation 42 for a maintenance grant for living costs in connection with that eligible student's attendance on a designated course.

(2) A new system eligible student who is a 2010 cohort student or a 2012 cohort student qualifies in accordance with regulation 43 for a maintenance grant for living costs in connection with that eligible student's attendance on a designated course.

(3) A new system eligible student who is a 2011 cohort student qualifies in accordance with regulation 44 for a maintenance grant for living costs in connection with that eligible student's attendance on a designated course.

(4) A new system eligible student does not qualify for a maintenance grant if that

myfyriwr cymwys hwnnw i gael grant cymorth arbennig.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), mae grant cynhaliaeth at gostau byw yn daladwy i fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd mewn perthynas â phedwar chwarter y flwyddyn academaidd.

(6) Pan fo un o'r digwyddiadau a restrir yn rheoliad 28(13) yn digwydd yn ystod blwyddyn academaidd, dim ond mewn perthynas â'r chwarteri hynny sy'n dechrau ar ôl i'r digwyddiad perthnasol ddigwydd y caiff myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd fod â hawl i gael grant cynhaliaeth at gostau byw.

**Grant cynhaliaeth – myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd nad ydynt yn fyfyrwyr carfan newydd**

**42.**—(1) Uchafswm y grant cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd nad yw'n fyfyriwr carfan newydd mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw—

(a) yn achos myfyriwr math 1 ar gwrs hyfforddi athrawon, £1,500;

(b) yn achos myfyriwr math 2 ar gwrs hyfforddi athrawon, £3,000;

(c) yn achos myfyriwr math 3 ar gwrs hyfforddi athrawon, £1,500; ac

(d) yn achos myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd ac eithrio myfyriwr math 1, math 2 neu fath 3 ar gwrs hyfforddi athrawon, £3,000.

(2) Mae myfyriwr math 1 ar gwrs hyfforddi athrawon sydd â hawl i gael grant cynhaliaeth mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael un o'r symiau a ganlyn mewn perthynas â'r flwyddyn honno—

(a) os yw incwm yr aelwyd yn £18,370 neu lai, mae'r myfyriwr cymwys yn cael £1,500;

(b) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £18,370 ond heb fod yn fwy na £27,852, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **M–(A/2)** pan fo **M** yn £1,500 ac **A** yn £1 am bob £5.674 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £18,370; ac

(c) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £27,852, neu os yw'r myfyriwr cymwys, wrth wneud cais am y grant, yn dewis peidio â darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i gyfrifo incwm yr aelwyd, mae'r myfyriwr cymwys yn cael £664.

(3) Mae myfyriwr math 2 ar gwrs hyfforddi athrawon sydd â hawl i gael grant cynhaliaeth mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael un o'r

eligible student qualifies for a special support grant.

(5) Subject to paragraph (6), a maintenance grant for living costs is payable to a new system eligible student in respect of the four quarters of the academic year.

(6) Where one of the events listed in regulation 28(13) occurs in the course of an academic year, a new system eligible student may only qualify for a maintenance grant for living costs in respect of such quarters as begin after the relevant event occurs.

**Maintenance grant – new system eligible students who are not new cohort students**

**42.**—(1) The maximum amount of maintenance grant available to a new system eligible student who is not a new cohort student in respect of an academic year is—

(a) in the case of a type 1 teacher training student, £1,500;

(b) in the case of a type 2 teacher training student, £3,000;

(c) in the case of a type 3 teacher training student, £1,500; and

(d) in the case of a new system eligible student other than a type 1, type 2 or type 3 teacher training student, £3,000.

(2) A type 1 teacher training student who qualifies for a maintenance grant in respect of an academic year receives an amount as follows in respect of that year—

(a) where the household income is £18,370 or less, the eligible student receives £1,500;

(b) where household income exceeds £18,370 but does not exceed £27,852, the eligible student receives an amount equal to **M - (A/2)** where **M** is £1,500 and **A** is £1 for every £5.674 by which the household income exceeds £18,370; and

(c) where the household income exceeds £27,852, or the eligible student opts when applying for the grant not to provide the information needed to calculate the household income, the eligible student receives £664.

(3) A type 2 teacher training student who qualifies for a maintenance grant in respect of an

symiau a ganlyn mewn perthynas â'r flwyddyn honno—

(a) os yw incwm yr aelwyd yn £18,370 neu lai, mae'r myfyriwr cymwys yn cael £3,000;

(b) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £18,370 ond heb fod yn fwy na £27,852, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **M–A** pan fo **M** yn £3,000 ac **A** yn £1 am bob £5.674 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £18,370; ac

(c) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £27,852, neu os yw'r myfyriwr cymwys, wrth wneud cais am y grant, yn dewis peidio â darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i gyfrifo incwm yr aelwyd, mae'r myfyriwr cymwys yn cael £1,329.

(4) Mae myfyriwr math 3 ar gwrs hyfforddi athrawon sydd â hawl i gael grant cynhaliaeth mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael un o'r symiau a ganlyn mewn perthynas â'r flwyddyn honno—

(a) os yw incwm yr aelwyd yn £18,370 neu lai, mae'r myfyriwr cymwys yn cael £1,500;

(b) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £18,370 ond heb fod yn fwy na £27,852, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **M–(A/2)** pan fo **M** yn £1,500 ac **A** yn £1 am bob £5.674 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £18,370;

(c) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £27,852 ond heb fod yn fwy na £39,329, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **RM–(A/2)** pan fo **RM** yn £664 ac **A** yn £1 am bob £8.97 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £27,852;

(d) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £39,329, nid oes unrhyw grant cynhaliaeth yn daladwy.

(5) Mae myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd ac eithrio myfyriwr math 1, math 2 neu fath 3 ar gwrs hyfforddi athrawon sydd â hawl i gael grant cynhaliaeth mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael un o'r symiau a ganlyn mewn perthynas â'r flwyddyn honno—

(a) os yw incwm yr aelwyd yn £18,370 neu lai, mae'r myfyriwr cymwys yn cael £3,000;

(b) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £18,370 ond heb fod yn fwy na £27,852, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **M–A** pan fo **M** yn £3,000 ac **A** yn £1 am bob £5.674 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £18,370;

academic year receives an amount as follows in respect of that year—

(a) where the household income is £18,370 or less, the eligible student receives £3,000,;

(b) where the household income exceeds £18,370 but does not exceed £27,852, the eligible student receives an amount equal to **M - A** where **M** is £3,000 and **A** is £1 for every £5.674 by which the household income exceeds £18,370; and

(c) where the household income exceeds £27,852, or the eligible student opts when applying for grant not to provide the information needed to calculate the household income, the eligible student receives £1,329.

(4) A type 3 teacher training student who qualifies for a maintenance grant in respect of an academic year receives an amount as follows in respect of that year—

(a) where the household income is £18,370 or less, the eligible student receives £1,500;

(b) where the household income exceeds £18,370 but does not exceed £27,852, the eligible student receives an amount equal to **M - (A/2)**, where **M** is £1,500 and **A** is £1 for every £5.674 by which the household income exceeds £18,370;

(c) where the household income exceeds £27,852 but does not exceed £39,329 the eligible student receives an amount equal to **RM - (A/2)**, where **RM** is £664 and **A** is £1 for every £8.97 by which the household income exceeds £27,852;

(d) where the household income exceeds £39,329, no maintenance grant is payable.

(5) A new system eligible student other than a type 1, type 2 or type 3 teacher training student who qualifies for a maintenance grant in respect of an academic year receives an amount as follows in respect of that year—

(a) where the household income is £18,370 or less, the eligible student receives £3,000;

(b) where the household income exceeds £18,370 but does not exceed £27,852, the eligible student receives an amount equal to **M - A** where **M** is £3,000 and **A** is £1 for every £5.674 by which the household income exceeds £18,370;

(c) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £27,852 ond heb fod yn fwy na £39,329, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **RM–A** pan fo **RM** yn £1,329 ac **A** yn £1 am bob £8.97 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £27,852;

(d) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £39,329, nid oes unrhyw grant cynhaliaeth yn daladwy.

**Grant cynhaliaeth – myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyrwyr carfan 2010 neu'n fyfyrwyr carfan 2012**

**43.**—(1) Uchafswm y grant cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyriwr carfan 2010 neu'n fyfyriwr carfan 2012 mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw £5,161.

(2) Mae myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyriwr carfan 2010 neu'n fyfyriwr carfan 2012 ac sydd â hawl i gael grant cynhaliaeth mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael un o'r symiau a ganlyn mewn perthynas â'r flwyddyn honno—

(a) os yw incwm yr aelwyd yn £18,370 neu lai, mae'r myfyriwr cymwys yn cael £5,161;

(b) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £18,370 ond heb fod yn fwy na £26,500, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i M-A, pan fo M yn £5,161 ac A yn £1 am bob £3.653 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £18,370;

(c) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £26,500 ond heb fod yn fwy na £34,000, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **RM–A** pan fo **RM** yn £2,936 ac **A** yn £1 am bob £4.18 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £26,500;

(d) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £34,000 ond heb fod yn fwy na £50,020, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **SM–A** pan fo **SM** yn £1,142 ac **A** yn £1 am bob £14.67 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £34,000;

(e) os yw incwm yr aelwyd yn £50,020, mae'r myfyriwr cymwys yn cael £50; ac

(f) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £50,020, nid oes unrhyw grant cynhaliaeth yn daladwy.

**Grant cynhaliaeth – myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyrwyr carfan 2011**

**44.**—(1) Uchafswm y grant cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyriwr

(c) where the household income exceeds £27,852 but does not exceed £39,329, the eligible student receives an amount equal to **RM - A**, where **RM** is £1,329 and **A** is £1 for every £8.97 by which the household income exceeds £27,852;

(d) where the household income exceeds £39,329, no maintenance grant is payable.

**Maintenance grant – new system eligible students who are 2010 cohort students or 2012 cohort students**

**43.**—(1) The maximum amount of maintenance grant available to a new system eligible student who is a 2010 cohort student or a 2012 cohort student in respect of an academic year is £5,161.

(2) A new system eligible student who is a 2010 cohort student or a 2012 cohort student and who qualifies for a maintenance grant in respect of an academic year receives an amount as follows in respect of that year—

(a) where the household income is £18,370 or less, the eligible student receives £5,161;

(b) where the household income exceeds £18,370 but does not exceed £26,500, the eligible student receives an amount equal to **M - A**, where **M** is £5,161 and **A** is £1 for every £3.653 by which the household income exceeds £18,370;

(c) where the household income exceeds £26,500 but does not exceed £34,000, the eligible student receives an amount equal to **RM - A**, where **RM** is £2,936 and **A** is £1 for every £4.18 by which the household income exceeds £26,500;

(d) where the household income exceeds £34,000 but does not exceed £50,020, the eligible student receives an amount equal to **SM - A**, where **SM** is £1,142 and **A** is £1 for every £14.67 by which the household income exceeds £34,000;

(e) where the household income is £50,020, the eligible student receives £50; and

(f) where the household income exceeds £50,020, no maintenance grant is payable.

**Maintenance grant – new system eligible students who are 2011 cohort students**

**44.**—(1) The maximum amount of maintenance grant available to a new system eligible student who is

carfan 2011 mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw £5,780.

(2) Mae myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyriwr carfan 2011 ac sydd â hawl i gael grant cynhaliaeth mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael un o'r symiau a ganlyn mewn perthynas â'r flwyddyn honno—

(a) os yw incwm yr aelwyd yn £18,370 neu lai, mae'r myfyriwr cymwys yn cael £5,780;

(b) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £18,370 ond heb fod yn fwy na £26,500, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **M-A**, pan fo **M** yn £5,780 ac **A** yn £1 am bob £3.653 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £18,370;

(c) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £26,500 ond heb fod yn fwy na £34,000, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **RM–A** pan fo **RM** yn £3,555 ac **A** yn £1 am bob £4.18 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £26,500;

(d) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £34,000 ond heb fod yn fwy na £50,020, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **SM–A** pan fo **SM** yn £1,761 ac **A** yn £1 am bob £9.36 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £34,000;

(e) os yw incwm yr aelwyd yn £50,020, mae'r myfyriwr cymwys yn cael £50;

(f) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £50,020, nid oes unrhyw grant cynhaliaeth yn daladwy.

### Grant cymorth arbennig

**45.**—(1) Mae hawl gan fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd, nad yw'n fyfyriwr carfan newydd, i gael grant cymorth arbennig yn unol â rheoliad 46 mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs dynodedig, i dalu costau llyfrau, offer, teithio neu ofal plant sy'n cael eu hysgwyddo at y diben o fod yn bresennol ar y cwrs hwnnw.

(2) Mae hawl gan fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd, sy'n fyfyriwr carfan 2010 neu'n fyfyriwr carfan 2012, i gael grant cymorth arbennig yn unol â rheoliad 47 mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs dynodedig, i dalu costau llyfrau, offer, teithio neu ofal plant sy'n cael eu hysgwyddo at y diben o fod yn bresennol ar y cwrs hwnnw.

(3) Mae hawl gan fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd, sy'n fyfyriwr carfan 2011, i gael grant cymorth arbennig yn unol â rheoliad 48 mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs dynodedig, i dalu costau llyfrau, offer, teithio neu ofal plant sy'n cael eu

a 2011 cohort student in respect of an academic year is £5,780.

(2) A new system eligible student who is a 2011 cohort student and who qualifies for a maintenance grant in respect of an academic year receives an amount as follows in respect of that year—

(a) where the household income is £18,370 or less, the eligible student receives £5,780;

(b) where the household income exceeds £18,370 but does not exceed £26,500, the eligible student receives an amount equal to **M - A**, where **M** is £5,780 and **A** is £1 for every £3.653 by which the household income exceeds £18,370;

(c) where the household income exceeds £26,500 but does not exceed £34,000, the eligible student receives an amount equal to **RM - A**, where **RM** is £3,555 and **A** is £1 for every £4.18 by which the household income exceeds £26,500;

(d) where the household income exceeds £34,000 but does not exceed £50,020, the eligible student receives an amount equal to **SM - A**, where **SM** is £1,761 and **A** is £1 for every £9.36 by which the household income exceeds £34,000;

(e) where the household income is £50,020, the eligible student receives £50;

(f) where the household income exceeds £50,020, no maintenance grant is payable.

### Special support grant

**45.**—(1) A new system eligible student who is not a new cohort student qualifies in accordance with regulation 46 for a special support grant in connection with that eligible student's attendance on a designated course to defray the cost of books, equipment, travel or childcare incurred for the purpose of attending that course.

(2) A new system eligible student who is a 2010 cohort student or a 2012 cohort student qualifies in accordance with regulation 47 for a special support grant in connection with that eligible student's attendance on a designated course to defray the cost of books, equipment, travel or childcare incurred for the purpose of attending that course.

(3) A new system eligible student who is a 2011 cohort student qualifies in accordance with regulation 48 for a special support grant in connection with that student's attendance on a designated course to defray the cost of books, equipment, travel or

hysgwyddo at y diben o fod yn bresennol ar y cwrs hwnnw.

(4) Mae gan fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd hawl i gael grant cymorth arbennig os yw'r myfyriwr cymwys hwnnw—

(a) yn dod o fewn categori rhagnodedig o bersonau at ddibenion adran 124(1)(e) o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**1**);

(b) yn cael ei drin fel rhywun sy'n atebol i wneud taliadau mewn perthynas ag annedd, a ragnodir gan reoliadau a wnaed o dan adran 130(2) o'r Ddeddf honno(**2**); neu

(c) yn atebol, neu'n cael ei drin fel pe bai'n atebol, i wneud taliadau mewn perthynas â'r llety y mae'n ei feddiannu fel ei gartref o dan reoliad 25(3) o Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), mae grant cymorth arbennig yn daladwy i fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd mewn perthynas â phedwar chwarter y flwyddyn academaidd.

(6) Pan fo un o'r digwyddiadau a restrir yn rheoliad 28(13) yn digwydd yn ystod blwyddyn academaidd, dim ond mewn perthynas â'r chwarteri hynny sy'n dechrau ar ôl i'r digwyddiad perthnasol ddigwydd y caiff myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd fod â hawl i gael grant cymorth arbennig.

**Grant cymorth arbennig – myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd nad ydynt yn fyfyrwyr carfan newydd**

**46.**—(1) Uchafswm y grant cymorth arbennig sydd ar gael i fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd nad yw'n fyfyriwr carfan newydd, mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw—

(a) yn achos myfyriwr math 1 ar gwrs hyfforddi athrawon, £1,500;

(b) yn achos myfyriwr math 2 ar gwrs hyfforddi athrawon, £3,000;

(**1**) 1992 p.4. Gwnaed newidiadau i adran 124 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Mae'r categorïau o dan adran 124(1)(e) wedi eu rhagnodi mewn rheoliadau. Y rheoliad perthnasol yw rheoliad 4ZA o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987 (O.S. 1987/1967). Mewnosodwyd rheoliad 4ZA gan O.S. 1996/206, a ddiwygiwyd gan O. S. 1997/2197, O.S. 2000/636, O.S. 2000/1981, O.S. 2001/3070, O.S. 2006/2144, O.S. 2008/1826, O.S. 2009/583, O.S. 2009/2655 ac O.S. 2009/3152.

(**2**) Mae diwygiadau i adran 130 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Y rheoliad perthnasol yw rheoliad 56 o Reoliadau Cymhorthdal Tai 2006 (O.S. 2006/213 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/718, O.S. 2008/1042, O.S. 2008/1082, O.S. 2009/583 ac O.S. 2010/641).

childcare incurred for the purpose of attending that course.

(4) A new system eligible student qualifies for a special support grant if that eligible student—

